

AWDURDOD Y PARC CENEDLAETHOL

30 Tachwedd 2016

Yn bresennol: Y Cynghorydd M James (Cadeirydd)
Mr D Ellis, Ms C Gwyther, y Cynghorydd P Harries, y
Cynghorydd S Hudson, y Cynghorydd L Jenkins, y
Cynghorydd R Kilmister, y Cynghorydd RM Lewis, y
Cynghorydd PJ Morgan, y Cynghorydd R Owens, y
Cynghorydd D Rees, Mr AE Sangster, Mrs M Thomas, y
Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd M Williams.

Roedd Mrs E Williams a Ms K Maddock-Jones, a oedd yn cymryd rhan yng nghynllun mentora'r Awdurdod, hefyd yn bresennol.

(Swyddfeydd APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00-13.10)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mr A Archer, y Cynghorydd ML Evans a Mrs G Hayward.

2. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Dywedodd y Cadeirydd mai hwn oedd y cyfarfod diwethaf o'r Awdurdod y byddai Mrs Melinda Thomas a Mr David Ellis yn bresennol ynddo a diolchodd iddynt am eu hymrwymiad i'r Awdurdod ac am eu cyfraniad at ei drafodaethau. Dywedodd ei fod wedi bod yn bleser gweithio gyda hwy a dymunodd yn dda iddynt ar gyfer y dyfodol. Ychwanegodd bod Mrs Thomas wedi gwasanaethu am 5 mlynedd a heddiw oedd ei diwrnod olaf gyda'r Awdurdod wrth iddi symud ymlaen i feysydd newydd, ac roedd Mr Ellis wedi gwasanaethu am yr uchafswm o 10 mlynedd pan fyddai'n gorffen ar 31 Ionawr 2017.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr ei fod wedi cael ar ddeall y byddai hysbyseb am y swyddi yn cael ei chyhoeddi ym mis Ionawr. Nododd hefyd fod y cynllun Mentora Aelodau yr oedd yr Awdurdod wedi bod yn ei gynnal wedi dod i ben a diolchodd i'r tri Mentorai, a'r rhai a oedd wedi eu mentora, am gymryd rhan.



3. Datgelu Buddiant

Datgelwyd buddiant personol gan y Cynghorwyr R Lewis, P Morgan a L Jenkins mewn perthynas ag adroddiad 61/16 Adolygiad o Feysydd Parcio, ac felly arhosodd y tri yn yr ystafell gan gymeryd rhan lawn yn y drafodaeth.

Datgelodd y Cynghorydd M Williams fuddiant niweidiol mewn perthynas ag adroddiad 66/16 Darparu Gwybodaeth i Ymwelwyr a gadawodd yr ystafell yn ystod y drafodaeth.

Datgelodd y Cynghorydd P Harries fuddiant niweidiol posibl mewn perthynas ag adroddiad 66/16 Darparu Gwybodaeth i Ymwelwyr; fodd bynnag, eglurodd ei fod wedi cael caniatâd gan Bwyllgor Safonau'r Awdurdod i siarad a phleidleisio ar y mater felly arhosodd yn yr ystafell gan gymryd rhan lawn yn y drafodaeth.

Datgelodd y Cynghorydd D Rees, y Cynghorydd R Lewis a Mr D Ellis fuddiant niweidiol mewn perthynas ag adroddiad 67/16 Adolygiad o Ardaloedd Dynodedig i fynd i'r afael â llygredd nitradau yng Nghymru a gadawsant yr ystafell yn ystod y drafodaeth..

4. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi 2016 eu cyflwyno i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi 2016 yn cael eu cadarnhau a'u llofnodi.

5. Materion yn codi o'r cofnodion:

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

6. Adroddiadau o gyfarfodydd Pwyllgorau'r Awdurdod

Cafodd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod eu cyflwyno i'r Aelodau i'w hystyried / er gwybodaeth:

- (i) Y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 7 Medi 2016;
- (ii) Y Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 21 Medi 2016;
- (iii) Y Pwyllgorau Safonau a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2016 a 9 Tachwedd 2016;
- (iv) Gweithgor Strategaeth Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2016;



- (v) Y Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2016.

7. Y Bartneriaeth Lonydd Glas - Adroddiad Blynyddol 2016

Croesawodd y Cadeirydd Owen Roberts, Swyddog Lonydd Glas, i'r cyfarfod. Atgoffwyd yr Aelodau fod y Bartneriaeth Lonydd Glas yn cynnwys sefydliadau a grwpiau cyhoeddus a chymunedol sy'n ymwneud â hyrwyddo a chyflwyno teithio cynaliadwy ar draws y Sir ac roedd yr Awdurdod wedi bod yn bartner ers ei sefydlu yn y 1990au. Nodwyd bod Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gwneud cyfraniad ariannol blynyddol i'r bartneriaeth o tua £72,000 a oedd yn gymorth i gyflenwi'r Gwasanaethau Bysiau Arfordirol, cynllun parcio a theithio Dinbych-y-pysgod, y Fenter Bikemobility a hefyd yn ariannu'n rhannol swydd y Swyddog Lonydd Glas, a gyflogir gan Gyngor Sir Penfro.

Ynglwm wrth yr adroddiad roedd Adroddiad Blynyddol Lonydd Glas Sir Benfro, a oedd yn nodi'r prif gyflawniadau hyd yma ar gyfer 2016 a'r heriau i'w hwynebu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cyfeiriodd y Swyddog Lonydd Glas at lwyddiant y gwasanaeth bws arfordirol, a nododd fod y ffigurau yn dangos cynnydd o gymharu â'r llynedd, yn enwedig yn achos y Gwibiwr Celtaidd ar Benrhyn Tyddewi. Gofynnodd yr Aelodau am y cynlluniau ar gyfer y gwasanaethau hynny nad oeddynt yn gwneud cystal, megis Gwibfws yr Arfordir nad oedd cymaint wedi teithio arno yn y blynyddoedd diwethaf. Eglurodd y Swyddog y bu nifer o newidiadau i amserlen y gwasanaeth hwn o ganlyniad i doriadau cyllido a bod cwmni Bysiau Silcox wedi dod i ben. Y gobaith oedd y byddai amserlen ddiwygiedig addas yn cael ei darparu o 1 Ebrill a byddai hyn wedyn yn cael ei hyrwyddo i fusnesau lleol, ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd.

Cyfeiriodd un Aelod hefyd at yr ail wasanaeth parcio a theithio yn Ninbych-y-pysgod a oedd yn arfer gweithredu o Faes Parcio Traeth y Gogledd Dinbych-y-pysgod i'r Harbwr a gofynnodd a oedd unrhyw gynlluniau i'w ailgyflwyno. Atebodd y swyddogion y ceisiwyd cael ffynonellau cyllid amgen fel y gallai'r gwasanaeth gael ei ailgyflwyno ond bu hynny'n aflwyddiannus hyd yma. Dim ond cyfraniad bach oedd ar gael oddi wrth fusnesau lleol mawr sy'n elwa ar wasanaeth y Salterns, a gofynnodd yr Aelod bod ymdrechion o'r newydd yn cael eu gwneud i gynyddu'r cyllid o'r ffynhonnell honno fel y gellid cael mwy o gymhorthdal i gynnal ail wasanaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Owen am ei gyflwyniad a'r adroddiad.



NODWYD.

8. Cynllun Corfforaethol 2017/18

Atgoffwyd yr Aelodau fod y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus gyhoeddi cynllun yn dangos sut y byddent yn cyfrannu at y nodau llesiant a sut yr oeddynt wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn eu gwaith. Mae'r Cynllun Corfforaethol drafft, felly, wedi datblygu amcanion llesiant yr Awdurdod, a allai hefyd gael eu hystyried fel ei amcanion gwella, ac mae'n nodi camau gweithredu, mesurau a chanlyniadau i fesur cynnydd.

Fersiwn ddrafft oedd y cynllun a gyflwynwyd a byddai'n destun ymgynghori, a gwahoddir yr Aelodau i gymeradwyo'r dull gweithredu a rhoi sylwadau ar y cynnwys. Byddai fersiwn derfynol y Cynllun Corfforaethol yn cael ei chyflwyno i'r Aelodau i'w chymeradwyo ym mis Ebrill.

O fewn yr amcan cyntaf i gefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, gofynnodd yr Aelodau fod mesur yn cael ei gynnwys a oedd yn cofnodi nifer y cyflenwyr a dalwyd o fewn 14 diwrnod oherwydd credent mai hwn oedd un o'r cyfraniadau mwyaf i'r economi leol y gallai'r Awdurdod ei wneud. Awgrymwyd hefyd fod rôl yr Awdurdod mewn addysg yn gwneud mwy o gyfraniad i lesiant byd-eang nag a awgrymir yn y camau gweithredu sy'n ymwneud ag Amcan 7. Yn olaf, gofynnodd yr Aelodau am drosolwg o'r Cynlluniau a luniwyd sgan yr Awdurdod a sut y maent yn cysylltu â'i gilydd a chytunodd y swyddogion i ddarparu hyn.

NODWYD.

9. Adolygiad o Weithredu a Rheoli Meysydd Parcio'r Awdurdod

Atgoffwyd yr Aelodau fod gweithredu meysydd parcio'r Awdurdod wedi bod yn destun Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Aelodau yn 2015 ac roedd papur wedi ei gyflwyno wedyn i Awdurdod y Parc Cenedlaethol ym mis Tachwedd pryd y gwnaed nifer o benderfyniadau. Roedd Gweithgor Gwasanaethau Cymorth yr Awdurdod wedi adolygu'r mater eto ar 5 Hydref gyda'r nod o ddarparu golwg tymor hirach o weithrediadau meysydd parcio yr Awdurdod a'r problemau sy'n gysylltiedig â hwy. Roedd yr adroddiad gerbron yr Awdurdod yn ystyried sut orau i ailwampio gweithrediadau'r meysydd parcio gyda golwg ar wella'r gwasanaeth a chael strwythur prisio gwell ar gyfer ymwelwyr â'r ardal a thrigolion lleol gyda ffocws penodol ar ddarparu model busnes teg ac effeithlon ar draws yr holl bortffolio o feysydd parcio a oedd gan yr Awdurdod, y rhai di-dâl yn ogystal â rhai taladwy.



Dangosodd y Swyddog Ystadau fap yn dangos lleoliad 37 maes parcio yr Awdurdod. Eglurodd fod 30 yn cynnig parcio am ddim ar hyn o bryd. Ac eithrio'r pedwar a nodwyd yn flaenorol - Llanrhath, Penalun, Gorllewin Angle a Nolton Haven – roedd y gweddill yn annhebygol o fod yn addas i godi tâl arnynt. Y derbyniadau gros oedd tua £500,000, a chan ganiatáu ar gyfer y costau gweithredu gan gynnwys buddsoddiad cyfalaf, roedd tua £300,000 yn refeniw dros ben. Er ei bod yn anochel fod cwynion yn dod i law, roedd y rhain yn fach iawn o ran nifer ac roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr - ymwelwyr a phobl leol - yn hapus â'r manteision a ddarparwyd.

Aeth yr adroddiad ymlaen i nodi nifer o argymhellion a fyddai, ym marn y swyddogion, yn cynnig dull syml, cyson a chyfoes o weithredu. Roedd y rhain yn cynnwys polisi cyson o ran codi tâl, cynnig symlach o ran tocynnau tymor, parcio am ddim am gyfnod byr, arwyddion, gorfodaeth a modelau talu heb arian yn y dyfodol. Yn y cyfarfod, gofynnwyd i'r Aelodau ystyried yr argymhelliad fod datblygu, cyflawni a gweithrediad y meysydd parcio yn cael eu dirprwyo i'r Prif Weithredwr, yn hytrach na'r Swyddog Ystadau, drwy'r Grŵp Eiddo a Phrosiectau, fel y nodwyd yn yr adroddiad, gyda thargedau a chynigion o ran strategaeth yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau bob 3 blynedd.

Atebodd y Swyddog nifer o gwestiynau gan yr Aelodau ynghylch costau talu digyswllt. Gobeithiwyd na fyddai hynny'n sylweddol, ond roedd arian wedi ei ddyrannu ar gyfer hynny, a gofynnwyd am gostau a mecanweithiau gorfodi, y bwriadwyd ei adolygu. Roedd rhywfaint o bryder hefyd am awdurdodi Parcmyn/Uwch Wardeiniaid i orfodi, oherwydd pryderwyd y gallai hyn beryglu eu rôl bresennol. Gofynnodd Aelod arall a oedd yr Awdurdod yn ddarostyngedig i Ddeddf Traffig Ffyrdd 1984 gan fod hyn yn llywodraethu'r dibenion y gellid defnyddio refeniw meysydd parcio ar eu cyfer. Dywedodd y Swyddog Monitro fod y Ddeddf yn fawr ac yn gynhwysfawr, ac er ei fod yn credu bod yr Awdurdod yn gweithredu yn unol â'r gyfraith, cytunodd i edrych i mewn i'r mater ymhellach. Mynegwyd pryder am ddiogelwch tocyn tymor o £70 a fyddai'n cael ei arddangos ar ddashfwrdd lle nad yw'r tocyn hwnnw yn cynnwys rhif cofrestru a gofynnwyd i'r swyddog ystyried a ellid cynnwys cod cyfeiriad o ryw fath. Gofynnwyd iddo hefyd edrych ar y geiriau arfaethedig 'isafswm taliad 5c' ar yr arwyddion ynglŷn â rhoddion gwirfoddol y tu allan i'r tymor. Fodd bynnag, roedd cefnogaeth o hyd i gyfraniadau o'r fath.

Yna, cafodd yr argymhelliad fel y'i ysgrifennwyd yn yr adroddiad i'r Awdurdod ei gynnig a'i eilio, ond cynigiwyd gwelliant hefyd er mwyn cynnwys 'dirprwyo i'r Prif Weithredwr gyda thargedau a chynigion



strategaeth yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau yn flynyddol o leiaf' gan fod rhai Aelodau yn pryderu am lywodraethu priodol pe byddai cyflwyniadau ond yn cael eu gwneud bob tair blynedd. Cynhaliwyd pleidlais ar y gwelliant a chafodd ei basio.

PENDERFYNWYD fod datblygu, cyflawni a gweithrediad y meysydd parcio yn cael eu dirprwyo i'r Prif Weithredwr gyda thargedau a chynigion strategaeth yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau bob blwyddyn o leiaf.

[Cyflwynodd Mr T Sangster ei ymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod ar y pwynt hwn.]

10. Diweddariad ar y cynlluniau ar gyfer safle'r Parc Cenedlaethol yng Nghilrhedyn

Atgoffwyd yr Aelodau iddynt, yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Chwefror 2016, gytuno i weithio gyda phartneriaeth o Coed Cymru a Tir Coed i ddod o hyd i ffordd newydd o ddefnyddio'r ganolfan yng Nghilrhedyn ac i leihau costau gweithredu'r Awdurdod. Rhoddwyd diweddariad i'r Awdurdod ym mis Gorffennaf ac roedd adroddiad cynnydd newydd ynghlwm er gwybodaeth i'r Aelodau.

Yn y diweddariad eglurwyd fod cynnydd wedi'i wneud o ran sicrhau grantiau tuag at y swydd Coed Cymru yr oedd y bartneriaeth yn gobeithio'i sefydlu yn y ganolfan, ond roedd eu cynlluniau ar gyfer ariannu'r ganolfan ei hun yn dibynnu ar gais am grant, ac ni fyddai'r canlyniad yn hysbys tan ddiwedd mis Mawrth 2017. Roedd hyn codi'r posibilrwydd na fyddai modd trosglwyddo'r adeilad yng Nghilrhedyn tan fis Mehefin / Gorffennaf y flwyddyn nesaf, a oedd yn oedi sylweddol ar yr amserlen wreiddiol. Fodd bynnag, roedd yn fuddiol i'r Awdurdod fod y safle yn parhau i ymwneud â phren ac yn caniatáu i'r Awdurdod barhau i'w ddefnyddio yn ganolfan wardeiniaid a pharcmyn. Yn y cyfamser, roedd tîm Wardeiniaid y Gogledd yn parhau i reoli'r ganolfan a darparu'r rhan fwyaf o'r dodrefn cefn gwlad sydd eu hangen ar yr Awdurdod. Roedd cyfarfod wedi ei drefnu gyda'r Bartneriaeth yn ystod mis Rhagfyr i drafod y trefniadau ymhellach.

Er bod yr Aelodau'n siomedig â'r cynnydd araf, roeddent yn obeithiol y byddai'r canlyniad yn werth yr aros.

PENDERFYNWYD bod Swyddogion yn cael eu hawdurdodi i barhau i weithio gyda'r bartneriaeth i gytuno ar drefniadau dros dro ar gyfer dechrau



2017 gyda'r bwriad o gytuno ar drosglwyddiad cyn gynted â phosibl ar ôl cadarnhau'r cyllid sydd ar gael ddiwedd mis Mawrth 2017.

11. Arolwg Defnyddwyr Llwybrau Gwledig 2015-16

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth i'r Aelodau am ganlyniadau'r arolwg defnyddwyr llwybrau gwledig a sut y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i arwain datblygiad a rheolaeth Llwybr yr Arfordir a hawliau tramwy cyhoeddus yn y Parc Cenedlaethol yn y dyfodol.

Gyda chytundeb y Cadeirydd, cafodd yr eitem hon ei symud i fod yn eitem olaf ar yr agenda. Fodd bynnag, pe na byddai digon o amser i ystyried yr adroddiad, cytunwyd i wneud sylwadau yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol ac Archwilio a Phwyllgor Adolygu Gweithredol yr Awdurdod.

NODWYD.

12. Panel Taliadau Annibynnol Cymru – Adroddiad Blynyddol Drafft 2017/18

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd wrth yr Aelodau fod yr Adroddiad Blynyddol drafft uchod ar lefel arfaethedig cyflogau'r Aelodau ar gyfer 2017/18 wedi'i gyhoeddi. Roedd rhannau o'r adroddiad wedi'u dosbarthu ac amlinellwyd y prif bwyntiau yn yr adroddiad. Gofynnwyd barn yr Aelodau, yn enwedig a ddylid talu Cyflogau Uwch ychwanegol i Gadeiryddion y Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol ac Archwilio a'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol, ac os felly, beth fyddai lefel briodol y gydnabyddiaeth; a hefyd a ddylai'r dyddiad gweithredu pryd y byddai penderfyniadau'r Panel yn dod i rym fod yn 1 Ebrill 2017 fel y nodir yn yr Adroddiad Blynyddol drafft, neu ddyddiad Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod fel yn y blynyddoedd blaenorol.

Gan ddatgan buddiant fel Cadeiryddion y Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol ac Archwilio a'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol, cytunodd y ddau Aelod nad oeddent yn teimlo fod y cyfrifoldebau a oedd ganddynt yn hawlio Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig. Nodwyd fod yr Aelodau a oedd wedi cadeirio'r ddau Bwyllgor Craffu yn y blynyddoedd diwethaf wedi gwneud gwaith ychwanegol sylweddol ac y dylid ystyried rhoi tâl am y gwaith hwnnw yn y dyfodol.



Gyda golwg ar y dyddiad gweithredu, roedd yr Aelodau o'r farn y byddai'n symlach yn ymarferol i swyddogion fod penderfyniadau'r Panel yn dod i rym ar ddyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, a chefnogwyd hyn.

PENDERFYNWYD bod ymateb yn cael ei gyflwyno i Adroddiad Blynyddol drafft Panel Taliadau Annibynnol Cymru i'r perwyl a ganlyn:

- a) na ddylid rhoi Cyflogau Uwch ychwanegol ar hyn o bryd; a
- b) y dyddiad ar gyfer gweithredu penderfyniadau'r Panel fydd dyddiad Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod.

[Yna cafwyd egwyl o 5 munud]

13. Adolygiad o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy 2000 - 2016

Atgoffwyd yr Aelodau fod Cronfa Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn darparu cefnogaeth ar gyfer prosiectau cynaliadwy arloesol sy'n dangos atebion ymarferol ar gyfer ffordd fwy cynaliadwy o fyw. Yn dilyn cais gan yr Aelodau, lluniwyd adroddiad yn adolygu'r cymorth ariannol a ddyfarnwyd i brosiectau rhwng 2000 a 2016 i ganfod a oedd yr arian cyhoeddus wedi'i wario yn ddoeth ac a oedd y prosiectau a gafodd arian yn dal yn weithredol heddiw.

Soniwyd bod 201 o brosiectau wedi cael cefnogaeth a bod cyllid y Gronfa Datblygu Cynaliadwy wedi denu bron i £5.3 miliwn o arian cyfatebol, gyda 17 o'r 21 prosiect a ddewiswyd ar hap i'w dadansoddi'n fanylach wedi cyflawni eu nodau yn llwyddiannus ac yn parhau i weithredu. Fodd bynnag, oherwydd yr amrywiaeth o fathau a maint y prosiectau a gefnogwyd, roedd pennu meini prawf cyffredin ar gyfer llwyddiant wedi bod yn anodd. Dywedodd y swyddog mai effaith fwyaf y gronfa oedd cefnogi prosiectau arloesol a oedd ag elfen o risg ac na fyddai efallai wedi cael arian o unrhyw ffynhonnell arall.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am yr adroddiad a'r gwaith caled o'i lunio. Fodd bynnag, teimlai un Aelod y dylid cael mwy o atebolrwydd parhaus ac roedd yn gobeithio bod y prosiectau hynny nad oedd yn weithredol mwyach wedi gadael rhyw fath o etifeddiaeth ar gyfer eu cymunedau. Atebodd y swyddog ei fod yn un o ofynion y gronfa fod prosiectau yn dod â budd i'r Parc Cenedlaethol a/neu ei gymunedau. Fodd bynnag, o ystyried y pwyslais ar arbrofi, roedd methiannau i'w disgwyl. Gellid rhoi ystyriaeth i gynnwys gofyniad ar gyfer monitro prosiectau yn y tymor hwy yn y meini prawf dyfarnu yn y dyfodol.



Diolchodd sawl Aelod o Bwyllgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy i'r swyddog am ei gwaith gyda'r prosiectau. Nodwyd er na fu pob prosiect a gefnogwyd gan y Pwyllgor yn llwyddiannus, edrychwyd yn fanwl iawn ar bob un a hynny'n unol â threfniadau llywodraethu cadarn. Rhoddwyd diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor am y prosiectau cyfredol, ynghyd ag adroddiad blynyddol. Nodwyd hefyd fod bodolaeth y gronfa yn cefnogi nifer o'r amcanion yn y cynllun corfforaethol drafft a'r gobaith oedd y byddai'n parhau yn y dyfodol.

NODWYD.

14. Darparu Gwybodaeth i Ymwelwyr

Atgoffwyd yr Aelodau iddynt, yng nghyfarfod blaenorol yr Awdurdod, benderfynu ymgynghori ar gynigion i newid y modd yr oedd gwasanaethau gwybodaeth i ymwelwyr yn cael eu darparu yn Ninbych-y-pysgod a Threfdraeth yn y dyfodol. Cytunodd yr Aelodau'n unfrydol bod yr Awdurdod yn newid ei ddarpariaeth bresennol er mwyn buddsoddi mewn pecyn o fentrau newydd ar gyfer cefnogi twf yr economi ymwelwyr yn Sir Benfro. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn ogystal ag ymgynghoriad â staff yr effeithir arnynt gan y cynigion a'r undebau llafur perthnasol. Roedd cyfarfodydd cyhoeddus hefyd wedi'u cynnal yn y ddau leoliad, ynghyd â chyfarfodydd eraill gyda grwpiau rhanddeiliaid ynghylch effeithiau unrhyw newidiadau posibl a'r cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau'n wahanol.

[Datgelodd y Cynghorydd M Williams fuddiant yn elfen ganlynol yr eitem a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth. Nid oedd y Cynghorydd R Owens yn bresennol yn ystod y bleidlais.]

a) Dinbych-y-pysgod

Soniwyd mai ychydig iawn a oedd yn bresennol yn y cyfarfod cyhoeddus yn Ninbych-y-pysgod. Roedd y sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfarfod ac ar ôl hynny yn cyfeirio at ddyblygu gwasanaethau rhwng Canolfan Ymwelwyr yr Awdurdod a Chanolfan Groeso Cyngor Sir Penfro. Yn ogystal, roedd mwy o allfeydd (cyhoeddus, preifat a gwirfoddol) bellach yn stocio llawer o ddeunyddiau cyhoeddusurwydd tebyg i'r rhai a geir yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol yn Ninbych-y-pysgod.

Cafwyd trafodaethau gyda'r Amgueddfa a'r Cyngor Tref mewn perthynas â chyfleoedd yn y dyfodol ac roedd y Cyngor Tref hefyd wedi cytuno i sefydlu grŵp gyda rhanddeiliaid eraill i drafod sut y gellid darparu gwybodaeth i ymwelwyr a phreswylwyr yn y dref.



Roedd y papur a gyflwynwyd i'r Awdurdod ar 28 Medi yn amlinellu'r goblygiadau ariannol pe byddai natur y gwasanaeth yn ardal Dinbych-y-pysgod yn cael ei newid. Soniwyd bod yr eiddo wedi'i brydlesu tan 2019, ac y byddai ildio'r brydles yn fuan yn costio tua £160,000. Er y negodwyd swm is na hyn, ni chafwyd ymateb hyd yma. Fodd bynnag, hyd yn oed yn y sefyllfa waethaf bosibl yn yr adroddiad, roedd budd ariannol o gau'r adeilad.

Awgrymodd un Aelod y dylid ystyried adleoli staff i Ganolfan Groeso'r Cyngor Sir ac awgrymwyd gwelliant i'r perwyl hwnnw. Fodd bynnag, nododd eraill fod y Gweithgor Darparu Gwybodaeth i Ymwelwyr wedi argymhell i'r Awdurdod na ddylai gwasanaethau gael eu clymu i adeiladau, ond y dylid eu lledaenu drwy'r dref. Nodwyd y gallai trafodaethau o'r fath gael eu cynnal fel rhan o'r 'pecyn o weithgareddau' a gynigir yn yr argymhelliad. Felly, tynnodd yr Aelod ei welliant yn ôl.

PENDERFYNWYD

- 1) Cymeradwyo cau'r rhan honno o Ganolfan Ymwelwyr Dinbych-y-pysgod sy'n ymwneud â'r cyhoedd ddim hwyrach na 28 Chwefror 2017.
- 2) Cymeradwyo ildio'r brydles ar gyfer Canolfan Ymwelwyr Dinbych-y-pysgod ar ddyddiad i'w gytuno ar ôl 31 Mawrth 2017, gan ddibynnu ar anghenion gweithredol yr Awdurdod.
- 3) Bod gwaith yn dechrau ar unwaith i fuddsoddi mewn pecyn o weithgareddau i gyflwyno gwybodaeth i ymwelwyr yn ardal Dinbych-y-pysgod.

[Datgelodd y Cynghorydd P Harries fuddiant niweidiol posibl; fodd bynnag eglurodd ei fod wedi cael caniatâd gan Bwyllgor Safonau'r Awdurdod i siarad a phleidleisio ar y mater felly arhosodd yn y cyfarfod a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth.

Ymddiheurodd Ms C Gwyther, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ganlynol ac nid oedd yn bresennol ar gyfer y bleidlais.]

b) Trefdraeth

Soniwyd bod yr Awdurdod wedi cael nifer sylweddol o ymatebion i'r ymgynghoriad a oedd yn ymwneud â'r newidiadau arfaethedig i'r gwasanaethau ymwelwyr yn Nhrefdraeth, gan gynnwys gohebiaeth oddi wrth grŵp newydd ei sefydlu o'r enw Grŵp Gweithredu Canolfan Ymwelwyr Trefdraeth a sefydlwyd i archwilio, herio a gwrthwynebu cau Canolfan



Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol yn Nhrefdraeth'. Daeth nifer dda iawn i'r cyfarfod cyhoeddus ac roedd deiseb ar-lein wedi denu dros 1000 o lofnodwyr a phob un ohonynt yn gwrthwynebu cau'r Ganolfan Ymwelwyr.

O ganlyniad i'r ymatebion yn gwrthwynebu'r newidiadau arfaethedig i wasanaethau Trefdraeth, roedd swyddogion wedi cynnal nifer o gyfarfodydd ychwanegol gyda chyrff lleol a grwpiau rhanddeiliaid i egluro sefyllfa bresennol yr Awdurdod ac i archwilio ffyrdd amgen o ddarparu gwasanaethau i ymwelwyr yn Nhrefdraeth a'r cyffiniau. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau y gallai'r Awdurdod fynd i'r afael yn llawn â'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol, cynigiwyd bod unrhyw benderfyniad ffurfiol ar newidiadau i wasanaethau ymwelwyr Trefdraeth yn cael ei ohirio tan gyfarfod Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn y dyfodol. Byddai'r amser ychwanegol yn cael ei ddefnyddio'n benodol i archwilio modelau cynaliadwy hirdymor newydd ar gyfer cyflenwi gwasanaethau ymwelwyr yn Nhrefdraeth mewn partneriaeth â chyrff yn y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn yr ardal.

Croesawodd yr Aelodau'r cyfle i drafod ymhellach y ffordd ymlaen yn Nhrefdraeth ac roeddynt yn credu y byddai'r argymhelliad yn mynd i'r afael â phryderon uniongyrchol y gymuned. Fodd bynnag, er mai ymestyn y cyfnod ymgynghori i edrych ar y dewisiadau eraill oedd yr ymateb priodol yn yr amgylchiadau, nodwyd bod y Gweithgor Darparu Gwybodaeth i Ymwelwyr yn unfrydol nad oedd cynnal canolfannau gwybodaeth yr Awdurdod yn gynaliadwy yn y tymor hir a bod angen darparu modelau gwahanol.

Cafwyd peth trafodaeth ynghylch y partiön i ymgynghori â hwy yn Nhrefdraeth, o ystyried y nifer o wahanol grwpiau a oedd â diddordeb. Eglurwyd nad oedd gan y Cyngor Tref fandad democrataidd; fodd bynnag, nodwyd bod y grwpiau yn Nhrefdraeth yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac y byddai'r Awdurdod yn parhau i ymgysylltu â phob parti. Y gobaith oedd y byddai cynlluniau credadwy yn dechrau dod i'r amlwg erbyn cyfarfod mis Chwefror yr Awdurdod. Felly, roedd yr Aelodau'n agored i'r posibilrwydd o gadw canolfan Trefdraeth ar agor ar gyfer tymor ymwelwyr 2017 er mwyn caniatáu trafodaeth bellach, gyda'r bwriad bod unrhyw newidiadau yn cael eu rhoi ar waith yn gynnar yn 2018.

PENDERFYNWYD cymeradwyo ymestyn y cyfnod ymgynghori ac ymgysylltu ynghylch newidiadau posibl i'r gwasanaethau i ymwelwyr yn Nhrefdraeth yn y dyfodol.



[Ymataliodd y Cynghorydd M Williams rhag pleidleisio ar y penderfyniad uchod.]

[Datgelodd y Cynghorwyr R Lewis a D Rees a Mr D Ellis fuddiant yn yr eitem ganlynol a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth. Nid oedd y Cynghorydd M Williams yn bresennol ar gyfer y bleidlais ar yr eitem ganlynol.]

15. Adolygiad o Ardaloedd Dynodedig a'r Rhaglen Weithredu i Fynd i'r Afael â Llygredd Nitradau yng Nghymru

Soniwyd bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynigion i leihau llygredd nitradau sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth, a gofynnwyd am farn a thystiolaeth am: (1) yr opsiynau ar gyfer dynodi Parthau Perygl Nitradau (NVZs) yn y dyfodol - yn benodol a ddylid parhau i ddynodi Parthau Perygl Nitradau ar wahân neu, yn lle hynny, a ddylid cymhwyso mesurau gweithredu nitrad ledled Cymru gyfan; a (2) newidiadau arfaethedig i'r mesurau a weithredwyd o fewn Parthau Perygl Nitradau.

Roedd sicrhau ansawdd dŵr yn rhan allweddol o bwrpas cyntaf yr Awdurdod ac roedd swyddogion o blaid hoelio ymdrechion ac adnoddau ar yr ardaloedd hynny lle'r oedd gwraidd y problemau, yn hytrach na gweithredu cynllun ar gyfer Cymru gyfan. Roeddynt o'r farn bod hyn yn decach ac yn fwy cyfiawn. Roeddent yn cydnabod arwyddocâd cymdeithasol ac economaidd presennol y diwydiant llaeth i'r economi leol ac roedd pryder gwirioneddol y byddai'r dynodiad NVZ yn arwain at gost a beichiau ychwanegol a fyddai'n effeithio ar broffidioldeb; felly y gobaith oedd y byddai cymorth yn cael ei ddarparu yn y cyfnod trosiannol.

Roedd ymateb arfaethedig yr Awdurdod i'r ymgynghoriad i'w weld yn yr adroddiad a gofynnwyd am gytundeb yr Aelodau.

Mynegodd yr Aelodau bryder pe bai Parth NVZ Dŵr Mewnol Aberdaugleddau yn cael ei ddynodi, y byddai elifiant yn cael ei arllwys i'r ardal y tu allan i'r NVZ a oedd yn bennaf o fewn y Parc Cenedlaethol. Byddai gan hyn oblygiadau i rôl gynllunio'r Awdurdod drwy gynnydd posibl yn nifer y ceisiadau am offer treulio anerobig ar raddfa micro a macro a storio slyri ar raddfa fawr. Nid oedd y swyddogion yn credu y byddai hyn yn digwydd ar raddfa fawr ac roeddynt yn hyderus fod fframwaith yr Awdurdod ar gyfer ymdrin â cheisiadau, y Cynllun Datblygu Lleol, y Canllawiau Atodol a nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer storio slyri, yn addas at y diben.



Mynegodd Aelodau eraill bryderon am effaith y ddeddfwriaeth arfaethedig ar y gymuned ffermio ac roedd un Aelod o'r farn nad creu NVZs oedd yr ateb. Yna, cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i'r ymateb i ddweud bod yn well ganddynt ddynodi Cymru gyfan yn barth NVZ, ond methodd y cynnig. Yna, cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig i gytuno ar yr ymateb arfaethedig yn yr adroddiad fel ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriad, a phasiwyd hyn.

PENDERFYNWYD cytuno mai'r ymateb arfaethedig yn yr adroddiad fyddai ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriad ar yr adolygiad o'r Ardaloedd Dynodedig a'r Rhaglen Weithredu i fynd i'r afael â Llygredd Nitradau yng Nghymru.

